Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Diwygio'r Gyfraith ar Ymddiheuro mewn Achosion Sifil yng Nghymru a Lloegr

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 08-04-2024

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 03-06-2024

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Diwygio'r Gyfraith ar Ymddiheuro mewn Achosion Sifil

**Ymgynghoriad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/**

# Amdan yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **At:** | Pawb sy'n ymwneud neu gyda diddordeb mewn achosion sifil yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys ymgyfreithwyr, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn cynrychioli hawlwyr a diffynyddion, y diwydiant yswiriant ac aelodau o'r farnwriaeth. |
| **Hyd:** | O 08-04-2024 to 03-06-24 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) at:** | Zalwa Alasow<br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>Post Point 5.25<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: zalwa.alasow@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Dylech anfon eich ymateb erbyn 03-06-24 at:<br><br>Zalwa Alasow<br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>Post Point 5.25<br>102 Petty France<br><br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: zalwa.alasow@justice.gov.uk |

# Cynnwys


**Diwygio’r Gyfraith ar Ymddiheuro mewn Achosion Sifil** **3**

**Cynnwys** **1**

**Rhagair Gweinidogol** **3**

**Crynodeb gweithredol** **4**

**Rhagarweiniad** **5**

**Y cynigion** **8**

Rhagarweiniad 8

Cefndir 10

**Y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr ac Awdurdodaethau Cymharol eraill** **11**

Y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr 11

Y Gyfraith yn yr Alban 12

Y Gyfraith yng Ngogledd Iwerddon 13

Y Gyfraith yn Hong Kong 13

**Cynigion ar gyfer Diwygio** **15**

Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (“yr Ymchwiliad”) 15

Beirniadaeth 17

Yr Achos dros ac yn erbyn Deddfwriaeth Sylfaenol newydd 17

Effeithiau ar hawlwyr a diffynyddion 18

Opsiynau yn lle deddfu 19

**Holiadur** **20**

**Amdanoch chi** **22**

**Manylion cyswllt / Sut i ymateb** **23**

Cwynion neu sylwadau 23

Copïau ychwanegol 23

Cyhoeddi’r ymateb 23

Grwpiau cynrychiadol 23
Cyfrinachedd 24

**Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg 25**
Asesiad effaith 25
Cydraddoldeb 25
Prawf effaith ar y Gymraeg 25

**Egwyddorion ymgynghori 27**

# Rhagair Gweinidogol

Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn bryd adolygu ac ymgynghori ar y gyfraith ymddiheuro yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r gyfraith bresennol wedi'i disgrifio yn adran 2 Deddf Iawndal 2006 (y Ddeddf Iawndal) a'i nod yw annog pobl sy'n amddiffyn hawliadau i beidio â chael eu hatal rhag cynnig ymddiheuriad gan feddwl y byddai hynny'n gyfystyr â chyfaddef bai. Er mai ychydig iawn o dystiolaeth empirig sydd i awgrymu pa mor effeithiol yw'r ddeddfwriaeth bresennol, y farn gyffredinol yw ei bod wedi cael fawr ddim effaith oherwydd bod partïon yn ddealladwy yn gyndyn iawn o ymddiheuro gan ofni y byddai hynny'n cyfaddef bai.

Nod yr ymgynghoriad hwn felly yw edrych ar rôl ymddiheuro'n gyffredinol mewn cyfiawnder sifil a gofyn a yw'r Ddeddf Iawndal yn addas neu a ddylid ei disodli â deddfwriaeth newydd ac, os felly, sut gyfundrefn newydd y dylid ei chael.

Un cwestiwn sylfaenol yw a ddylai fod yn haws ymddiheuro. Mae pwyntiau i'w gwneud ar y ddwy ochr. Mae rhai'n dadlau bod ymddiheuriad a warchodir yn helpu i setlo achos yn gynnar a dylai felly fod yn haws gwneud un. Ar y llaw arall, ym marn rhai ni fydd yr ymddiheuriad yn helpu i ddatrys pethau ac felly na ddylai fod eisiau un yn rhywbeth i ystatud ymddiheuro ymdrin â fo.

O ystyried y dystiolaeth empirig brin, naill ai yng Nghymru a Lloegr neu dramor, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed am enghreifftiau go iawn o ymddiheuro. Byddai gennym hefyd ddiddordeb mewn gwybod a ddylai unrhyw ddeddfwriaeth ddiwygiedig adlewyrchu'r hyn a wnaed gyda Deddf Ymddiheuro (Yr Alban) 2016?

Hefyd, mae'r ymgynghoriad hwn yn symud ymlaen ag argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol i ystyried diwygio'r Ddeddf Iawndal i nodi'n glir bod y ddarpariaeth ar ymddiheuro'n ymestyn i achosion yn ymwneud ag atebolrwydd 'dirprwyol' am gam-drin plant yn rhywiol.

Bydd y Llywodraeth yn ystyried pob ymateb yn ofalus ac yn cyhoeddi ymateb yn egluro'r ffordd ymlaen maes o law.

Arglwydd Bellamy CB

Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol

# Crynodeb gweithredol

Nod y papur ymgynghori hwn yw holi barn am rôl ymddiheuro mewn achosion sifil yng Nghymru a Lloegr ac a fyddai darpariaethau deddfu i egluro neu ddiwygio’r gyfraith bresennol yn ddefnyddiol. Mae’n ystyried, yn enwedig, a yw’r ddeddfwriaeth bresennol yn adran 2 y Ddeddf Iawndal[1] yn ddigonol, neu a fyddai deddfwriaeth ar hyd yr un llinellau â Deddf Ymddiheuro (Yr Alban) 2016[2] (Deddf Ymddiheuro’r Alban) yn helpu i ehangu ar a gwneud y gyfraith yn gliriach.

Mae hefyd yn ystyried a holi barn am argymhelliad gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ar rôl ymddiheuro mewn achosion sifil yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol.

[1] Deddf Iawndal 2006 (legislation.gov.uk)

[2] Deddf Ymddiheuro (Yr Alban) 2016 (legislation.gov.uk)

# Rhagarweiniad

Mae'r papur hwn yn cyflwyno, ar gyfer ymgynghori, gynigion yn ymwneud â'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr ar ddefnyddio ymddiheuro mewn achosion sifil. Anelir yr ymgynghoriad at bawb sy'n ymwneud neu gyda diddordeb mewn achosion sifil yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys ymgyfreithwyr, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n cynrychioli hawlwyr a diffynyddion, y diwydiant yswiriant ac aelodau o'r farnwriaeth.

Mae papur ymgynghori yn Saesneg ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/consultations/reforming-the-law-of-apologies-in-civil-proceedings

Nid yw Asesiad Effaith wedi'i baratoi ar y pwynt hwn ac mae'r mater hwn yn cael ei ystyried ar dudalen 23.

Rydym yn anfon copïau o'r papur ymgynghori at:

Grŵp Gweithredu Mynediad at Gyfiawnder

Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder

AdviceUK

Cymdeithas Yswirwyr Prydain

Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth Ei Mawrhydi

Cyngor y Bar

Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol

Cymdeithas Feddygol Prydain

Y Ganolfan Datrys Anghydfod yn Effeithiol

Sefydliad Siartredig y Cymrodeddwyr

Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol

Cyngor ar Bopeth

Cymdeithas y Gyfraith Dinas Llundain

Cymdeithas Defnyddwyr y Llysoedd Sifil

Cyngor Cyfiawnder Sifil

Cyngor Cyfryngu Sifil

Cydffederasiwn Diwydiant Prydain

Cyngor Barnwyr Cylchdaith Ei Mawrhydi

Disability Rights UK

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Ffederasiwn y Busnesau Bach

Fforwm y Cyfreithwyr Anafiadau Cymhleth

Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Intermediaries for Justice

JUSTICE

Arglwyddes Brif Ustus

LawWorks

Y Gymdeithas Llywodraeth Leol

Cymdeithas yr Ynadon a Gweithredwyr Cyfreithiol yr Ynadon

NHS Resolution

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Resolution

Gwasanaeth Datrys Anghydfod RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig)

Shelter

Cymdeithas y Gyfraith

Strategaeth Cymorth Ymgyfreithwyr Drostynt Eu Hunain

Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Clinigol

Cyngres yr Undebau Llafur (TUC)

Cymorth i Ddioddefwyr

Llywodraeth Cymru

Fodd bynnag, ni ddylid ystyried y rhestr hon i fod yn gynhwysfawr na’n neilltuol ac mae croeso i bawb gyda diddordeb yn neu farn am bwnc trafod y papur hwn ymateb.

# Y cynigion

## Rhagarweiniad

1. Yn draddodiadol defnyddiwyd cryn bwyll gyda defnyddio ymddiheuriad mewn anghydfodau a chyfreitha sifil yng Nghymru a Lloegr. Mae rhai sy'n amddiffyn hawliadau wedi bod yn gyndyn o ymddiheuro gan ofni bod dweud sori'n cyfaddef bai o ryw fath ac yn gwanhau eu hachos.

2. Mae hyn yn anffodus oherwydd gallai rhoi a derbyn ymddiheuriad diffuant chwarae rhan bwysig yn y broses o ddatrys anghydfod ar draws ystod eang o feysydd cyfreithiol drwy leihau ymddygiad gwrthwynebus a'r posibilrwydd o anghytundebau'n gwaethygu. Enghraifft bwysig yw'r maes esgeulustod clinigol lle y mae gan ymddiheuriadau diffuant, diymwad ac ystyrlon botensial i osgoi mynd i gyfraith yn llwyr. Mewn rhai sefyllfaoedd, dweud sori yw'r hyn y mae pobl sy'n gwneud hawliad fwyaf eisiau ei glywed.

3. I geisio ei gwneud yn haws i unigolion neu sefydliadau ymddiheuro, heb gyfaddef unrhyw fai, cyflwynwyd deddfwriaeth i wneud hyn yn bosib ar sail statudol. Dyluniwyd adran 2 y Ddeddf Iawndal i wneud hyn yng Nghymru a Lloegr.

4. Fodd bynnag nid oes unrhyw dystiolaeth empirig i ddangos faint o effaith a gafodd y ddeddfwriaeth, os o gwbl, neu a oes ganddi unrhyw wendidau penodol. Nid oes tystiolaeth ychwaith o nifer yr ymddiheuriadau neu faint o ddibynnu sydd wedi bod ar y darpariaethau hyn.

5. Mae'r Llywodraeth felly'n holi barn am rôl ymddiheuro mewn achosion sifil yng Nghymru a Lloegr ac a fyddai unrhyw ddarpariaethau deddfu eraill neu ychwanegol yn egluro neu'n diwygio'r gyfraith bresennol yn ddefnyddiol.

6. Mae'r Llywodraeth yn agored ei meddwl ynghylch a ddylai unrhyw ddiwygio deddfwriaeth ar hyd yr un llinellau ag yn yr Alban (yn Neddf Ymddiheuro'r Alban) gael ei fabwysiadu yng Nghymru a Lloegr, ac yn gwahodd barn.

7. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth yn ystyried mabwysiadu'r hyn a wneir yn Hong Kong, a ddisgrifir yn fanwl isod. Mae ganddynt fodel deddfwriaethol llawer ehangach a allai effeithio'n ddi-fudd ar y cydbwysedd buddiannau rhwng hawlwyr a diffynyddion mewn cyfreitha sifil yng Nghymru a Lloegr.

8. Hefyd, mae'r Llywodraeth eisoes wedi derbyn pryderon yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ('yr Ymchwiliad') ym mis Medi 2019 ar sefyllfa

ymddiheuriadau o ran atebolrwydd ‘dirprwyol’ sefydliadau o dan y Ddeddf Iawndal. Cytunodd i ymgynghori ar ddiwygio’r ddeddfwriaeth i nodi’n gliriach bod darpariaethau statudol ar ymddiheuro’n cynnwys achosion o atebolrwydd ‘dirprwyol’ am gam-drin plant yn rhywiol.

9. Nod yr ymgynghoriad hwn felly yw holi barn am sut y gellid gwneud y gyfraith bresennol yn gliriach i adlewyrchu argymhellion yr Ymchwiliad.

## Cefndir

10. Ers 1986 pan fabwysiadodd Massachusetts[3] y ddeddfwriaeth gyntaf ar ymddiheuro, mae awdurdodaethau cyfraith gyffredin yn yr Unol Daleithiau, Canada ac Awstralia wedi mabwysiadu amrywiol systemau cyfreithiol i warchod pobl sy’n ymddiheuro rhag bod yn gyfreithiol gyfrifol o ganlyniad.

11. Mae rhai mathau o warchodaeth yn berthnasol i ymddiheuro’n rhannol, h.y. heb gydnabod unrhyw fai. Mae eraill yn gwarchod y parti sy’n ymddiheuro’n llawn, lle y gallai’r ddwy ochr efallai ddweud eu bod yn edifar ac yn derbyn cyfrifoldeb am wneud rhywbeth, rhag y perygl o ddefnyddio’r ymddiheuriad mewn llys i sefydlu eu hatebolrwydd.

12. Er enghraifft penderfynodd Awstralia yn 2002 ddiwygio ei deddfwriaeth[4] fel nad yw ymddiheuro’n llawn yn dystiolaeth o fai nac atebolrwydd. Mae British Columbia wedi gwneud yr un fath, ac awdurdodaethau eraill. Yn Awstralia, mae gwarchodaeth wedi’i heithrio mewn achosion o farwolaeth, niwed bwriadol, hawliadau tybaco ac ymosod yn rhywiol. Yn British Columbia, mae sgôp gwarchodaeth wedi’i ymestyn i gynnwys hawliadau yswiriant fel na ellir defnyddio ymddiheuriad llawn i ddiddymu yswiriant.

13. Yn gyffredinol, mae wedi bod yn safiad gan un llywodraeth y DU ar ôl y llall i annog defnyddio ymddiheuriad lle bo’n briodol i leihau ymddygiad gwrthwynebus a setlo anghydfodau sifil.

14. Mae’r ymgynghoriad hwn yn rhoi crynodeb o’r gyfraith bresennol yng Nghymru a Lloegr a hefyd yn trafod y gwahanol systemau deddfwriaeth yn yr Alban ac yna yn Hong Kong. Rhoddir manylion pellach am system pob awdurdodaeth isod.

---

[3] Massachusetts General Laws, Chapter 233, Section 23D (2020) - Admissibility of Benevolent Statements, Writings or Gestures Relating to Accident Victims.

[4] Civil Liability Act 2002 01-a0-02 Xml (legislation.wa.gov.au)

# Y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr ac Awdurdodaethau Cymharol eraill

## Y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr

15. O dan y gyfraith gyffredin yng Nghymru a Lloegr, nid yw ymddiheuriad ynddo'i hun yn gyfystyr â chyfaddef bai. Fodd bynnag, mae effaith ymddiheuriad yn dibynnu ar eiriad yr ymddiheuriad. Mewn rhai achosion, bydd y geiriau a ddefnyddir yn amlwg yn dangos cyfaddef bai, ac yn yr achosion hyn nid yw'r gyfraith gyffredin yn atal yr hawlydd rhag dibynnu ar y cyfaddefiad hwnnw dim ond oherwydd ei fod yn ymddiheuriad.

16. Y brif ddarpariaeth statudol ar ymddiheuriadau yw adran 2 y Ddeddf Iawndal sy'n darparu fel a ganlyn:

> *"ni fydd ymddiheuriad, cynnig triniaeth neu unioni arall, ynddo'i hun yn gyfystyr â chyfaddef esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol."*

17. Cafodd y ddarpariaeth hon ei chynnwys yn y Ddeddf Iawndal i annog busnesau, yswirwyr a sefydliadau eraill i beidio â chael eu hatal rhag cynnig ymddiheuriad gan ofni y byddai gwneud hynny'n gyfystyr â chyfaddef bai. Roedd y targed i fod yn gyffredinol iawn, sef unrhyw hawliadau lle y gallai cyfaddef esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol fod yn berthnasol, p'un ai'n gyfraith gyffredin neu beidio. Fodd bynnag nid oedd y Ddeddf Iawndal yn cynnwys diffiniad o ymddiheuriad.

18. Fodd bynnag, dylid cydnabod er bod deddfwriaeth yn bodoli, bod sefydliadau a phobl yn dal i fod yn gyndyn o ymddiheuro, efallai oherwydd pryderon gweddilliol y gallai ymddiheuro fod yn gyfystyr â chyfaddef bai ac y byddai pobl yn dibynnu ar hynny mewn cyfreitha sifil. Nid yw felly'n syndod bod diffynyddion (gan gynnwys cyrff cyhoeddus) yn parhau i deimlo bod angen pwyllo cyn cynnig ymddiheuriad, neu feddwl ba eiriau i'w defnyddio. Gallai sefydliadau a chwmnïau hefyd boeni y byddai ymddiheuro'n gwneud unrhyw yswiriant sydd ganddynt yn annilys.

19. Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth o ba mor aml y gwneir ymddiheuriad a pha mor eang y defnyddir y gyfraith bresennol. Croeso hefyd i farn am y rhesymau dros neu dros beidio ei ddefnyddio, yn ogystal â'i lwyddiant yn cael ei ddefnyddio mewn anghydfod.

20. Nid yw'r Llywodraeth ychwaith yn ymwybodol o unrhyw gyfraith achosion sylweddol ar y ddarpariaeth.

21. Wedi dweud hynny, er nad oes tystiolaeth empirig bod y gyfraith wedi cael effaith sylweddol, y teimlad o hyd yw bod diffynyddion yn parhau i fod yn gyndyn o ymddiheuro gan ofni y byddent yn cyfaddef bai.

## Y Gyfraith yn yr Alban

22. Mae Senedd yr Alban wedi pasio Deddf Ymddiheuro'r Alban i gynnig sicrwydd cyfreithiol na ellir defnyddio ymddiheuriad (yn ôl y diffiniad o dan y Ddeddf) fel tystiolaeth mewn achosion sifil. Mae adran 1 yn nodi:

> *"Mewn unrhyw achosion cyfreithiol y mae'r Ddeddf hon yn berthnasol iddynt, os gwneir ymddiheuriad (y tu allan i'r achos) yng nghyswllt unrhyw fater – (a) ni ellir ei dderbyn fel tystiolaeth o unrhyw beth sy'n berthnasol i benderfynu bai yng nghyswllt y mater hwnnw, a (b) ni ellir ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd arall i ragfarnu'r unigolyn gan neu ar ran yr unigolyn yr ymddiheurir ar eu rhan."*

23. Mae Deddf Ymddiheuro'r Alban yn fwy manwl na'r Ddeddf Iawndal, o ran diffinio beth a olygir wrth ymddiheuriad (Adran 3):

> *"Yn y Ddeddf hon mae ymddiheuro'n golygu unrhyw ddatganiad gan neu ar ran unigolyn sy'n awgrymu eu bod yn ymddiheuro neu'n edifar am wneud neu beidio â gwneud neu ganlyniad rhywbeth ac yn cynnwys unrhyw ran o'r datganiad sy'n cynnwys ymrwymo i edrych ar yr amgylchiadau a arweiniodd at wneud neu beidio â gwneud neu ganlyniad rhywbeth er mwyn ei atal rhag ail-ddigwydd".*

24. Hefyd, mae Deddf Ymddiheuro'r Alban yn berthnasol i ystod ehangach o achosion sef yr holl achosion sifil ar wahân i rai eithriadau penodedig fel difenwi cymeriad ac ymchwiliadau cyhoeddus (Adran 2).

25. Mae'r eithriad ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus yn cydnabod natur fwy holgar ymchwiliadau gan adlewyrchu bod angen i gadeirydd ymchwiliad ddefnyddio popeth perthnasol gan gynnwys cynnig ymddiheuriad fel rhan o'r broses. Nid yw ymchwiliadau

cyhoeddus yn chwilio am atebolrwydd, eu pwrpas yw rhoi cyfrif o’r hyn a ddigwyddodd a pham.

26. Fel gyda’r Ddeddf Iawndal, nid oes gan Lywodraeth yr Alban unrhyw ddata pendant ar effaith eu Deddf ond yn cydnabod ei fod yn eithaf isel.

## Y Gyfraith yng Ngogledd Iwerddon

27. Ar hyn o bryd nid oes gan Ogledd Iwerddon unrhyw ddeddfwriaeth benodol ar ddefnyddio ymddiheuro mewn cyfreitha sifil.

## Y Gyfraith yn Hong Kong

28. Pasiodd ddeddfwrfa Hong Kong Ordinhad Ymddiheuro yn 2017.[5] Mae’n berthnasol i bob achos sifil ac yn mynd llawer pellach na’r ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr a’r Alban. Mae’n rhagnodi na fydd ymddiheuriad yn gyfystyr â chyfaddef bai nac atebolrwydd hyd yn oed os yw’n cynnwys cyfaddefiad o’r fath ac ni ellir defnyddio cyfaddefiad o’r fath fel tystiolaeth er anfantais i’r sawl sy’n ymddiheuro. Mae’r ddeddfwriaeth yn wahanol i eraill drwy na ellir defnyddio unrhyw ddatganiad o ffaith mewn ymddiheuriad, gan amlaf, fel tystiolaeth yn erbyn y rhai sy’n ymddiheuro. Yn eithriadol, gellir ei dderbyn fel tystiolaeth yn ôl disgresiwn y sawl sy’n penderfynu, ond dim ond os yw’n “gyfiawn a theg” gwneud hynny ar ôl ystyried “y budd cyhoeddus neu fuddiannau gweinyddu cyfiawnder”. [6] Bwriad hyn yw annog ymddiheuriadau llawn a di-faich er mwyn ysgogi dod i gytundeb cyfeillgar.

29. Penderfynwyd gwneud hyn ar ôl ystyried y byddai dull mwy cyfyngedig yn annhebygol o gael digon o effaith yn annog setlo anghydfod. Fodd bynnag, byddai’n golygu y byddai angen i’r cyfnewidiadau rhwng y partïon a arweiniodd at yr ymddiheuriad, gan gynnwys cyfaddef bai, a’r ffeithiau y dibynnodd arnynt, gael eu profi yn y llys. Gallai hyn yn hawdd olygu dyblygu gwaith i’r hawlwyr a chynnydd yn eu costau na allent efallai eu hadennill.

30. Efallai hefyd y bydd angen adlewyrchu darpariaethau Hong Kong gael eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth arall fel cyfnodau gallu hawlio ac achosion sifil, fel gyda

[5] https://www.elegislation.gov.hk/hk/cap631?pmc=1&m=1&pm=0

[6] https://www.elegislation.gov.hk/hk/cap631?pmc=1&m=1&pm=0

phrotocolau cyn dod ag achos yn delio â chulhau'r materion cynhennus. Gallai hynny gael canlyniadau cymhlethu neu anfwriadol eraill.

# Cynigion ar gyfer Diwygio

31. Yn Rhagfyr 2020 cyflwynodd John Howell AS (Ceidwadwyr, Henley) Fesur Aelod Preifat, Y Mesur Ymddiheuro. Nod y Mesur hwnnw yw annog defnyddio ymddiheuriad i setlo anghydfodau sifil ac atal mater rhag troi’n anghydfod yn y lle cyntaf.

32. Wrth gyflwyno ei Fesur[7], meddai Mr Howell:

> *“Byddai Deddf Ymddiheuro newydd sbon yn ddatganiad clir gan San Steffan ac yn ddull cyfreithiol syml i helpu i wella’r sgyrsiau a gynhelir yn ein gwlad. Dylai ysgogi partïon mewn anghydfod i ymddiheuro p’un ai’n syth ar ôl damwain, camgymeriad neu anghydfod arall, neu nes ymlaen, os bydd yr anghydfod yn gwaethygu, er mwyn ceisio dod i gytundeb mwy cyfeillgar.”*

33. Roedd yn canmol dull Llywodraeth yr Alban o weithredu ar y mater yn eu deddfwriaeth nhw (a grynhoir uchod).

34. Ni wnaeth y Mesur gwblhau ei daith drwy’r Senedd cyn diwedd sesiwn 2019-21.

## Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (“yr Ymchwiliad”)

35. Ym mis Medi 2019[8], roedd yr Ymchwiliad yn argymell y canlynol yn ei adroddiad Ymchwiliad Atebolrwydd a Gwneud Iawn:

> *“Dylai’r llywodraeth gyflwyno deddfwriaeth yn diwygio Deddf Iawndal 2006 i nodi’n glir bod adran 2 yn hwyluso ymddiheuro neu gynnig triniaeth neu wneud iawn arall i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol gan sefydliadau a allai fod yn ddirprwyol atebol am yr hyn a wnaeth neu na wnaeth unigolion eraill, gan gynnwys y drwgweithredwyr.”* [9]

[7] https://hansard.parliament.uk/commons/2020-12-01/debates/1B5DAE62-69B1-4EF3-8C5B-1A2CAB41A519/Apologies

[8] https://www.iicsa.org.uk/key-documents/14231/view/accountability-reparations-report-19-sep-2019.pdf

[9] https://www.iicsa.org.uk/key-documents/14231/view/accountability-reparations-report-19-sep-2019.pdf

36. Roedd y rhesymeg am yr argymhelliad hwn fel a ganlyn:

> *"Rhaid i sefydliadau sy'n ddiffynyddion fod yn gallu ymddiheuro, cynnig triniaeth a mathau eraill o iawn i ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol heb danseilio eu gallu i amddiffyn hawliadau sifil. Pwrpas Deddf Iawndal 2006 yw hwyluso hyn ond ni all wneud hynny os yw yswiriwr y diffynnydd yn credu nad yw ei geiriad efallai'n berthnasol i hawliadau lle yr honnir atebolrwydd dirprwyol am yr hyn a wnaeth camdrinwyr unigol."* [10]

37. Roedd yr argymhelliad yn deillio o ffocws y dystiolaeth a ystyriwyd gan yr Ymchwiliad sef yr ymateb sefydliadol i gam-drin gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill, a oedd mewn sefyllfa o fod yn ddirprwyol atebol am y cam-drin yn hytrach na'n uniongyrchol atebol.

38. Er bod adran 2 y Ddeddf Iawndal yn cyfeirio at ymddiheuriadau a wneir am esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol, nid yw'n nodi'n gwbl glir bod atebolrwydd dirprwyol[11] - sef y brif sail ar gyfer dwyn hawliadau cam-drin plant yn rhywiol erbyn hyn – hefyd o fewn sgôp. Mae'n ansicr felly a fyddai'r llysoedd yn ei defnyddio mewn hawliadau cam-drin.

39. Mewn hawliadau atebolrwydd dirprwyol, rhaid i hawlydd fodloni dwy 'elfen' i'r prawf er mwyn gallu dod ag achos llwyddiannus:

    1. Perthynas berthnasol – bod y berthynas rhwng y diffynnydd a'r camdriniwr (yn y cyd-destun hwn) yn ddigon agos i gymhwyso ar gyfer atebolrwydd dirprwyol.

    2. Cysylltiad perthnasol – bod y cysylltiad rhwng y berthynas honno a'r gamdriniaeth yn ddigon agos i fod yn atebolrwydd i'r diffynnydd.

40. Roedd yswirwyr a thystion eraill i'r Ymchwiliad wedi nodi eu bod yn aneglur a oedd adran 2 y Ddeddf Iawndal yn ymestyn i achosion o atebolrwydd dirprwyol (er bod rhai diffynyddion, yn ymarferol, wedi ei dehongli i fod yn gwneud hynny). Fel y clywodd yr Ymchwiliad, i rai dioddefwyr a goroeswyr, roedd derbyn ymddiheuriad ystyrlon yn bwysicach na'r iawndal.

41. Roedd yr Ymchwiliad yn ystyried y byddai deddfu i fod yn gliriach ar gymhwysiad adran 2 y Ddeddf Iawndal yn yr achosion hyn yn cynorthwyo i annog ymddiheuro drwy roi statws statudol i'r mater a datrys y cwestiwn unwaith ac am byth.

---

[10] https://www.iicsa.org.uk/key-documents/14231/view/accountability-reparations-report-19-sep-2019.pdf

[11] Mae hon yn egwyddor gyfreithiol a all wneud sefydliadau'n atebol am weithredoedd eu gweithwyr, hyd yn oed pan nad yw'r sefydliad ei hun ar fai.

42. Yn ei hymateb i’r Ymchwiliad yn Ebrill 2020, dywedodd y Llywodraeth y byddai’n ystyried eto a fyddai’n ddefnyddiol diwygio’r Ddeddf Iawndal neu gymryd camau eraill i fod yn gliriach ar gymhwysiad y Ddeddf i’r amgylchiadau a drafodwyd yn yr Ymchwiliad.

43. Mae hefyd yn bwysig nodi bod y cwestiwn ehangach a yw atebolrwydd dirprwyol yn berthnasol i hawliadau penodol a hanesyddol o gam-drin plant yn rhywiol yn un a fu’n destun cyfreitha cymhleth, gyda dyfarniadau olynol yn y Goruchaf Lys.[12]

44. Fodd bynnag, i bwrpas y papur ymgynghori hwn, y cwestiwn syml yw a ddylid ymestyn darpariaethau’r Ddeddf Iawndal ar ymddiheuro’n benodol i gynnwys achosion o atebolrwydd dirprwyol.

## Beirniadaeth

45. Er bod ymddiheuro’n ddefnyddiol i hybu gwellhad cymdeithasol ac yn ddull pwerus o ddatrys anghydfod, nid yw’n ateb i bob dim. Mae ymarferwyr ac eraill yn cydnabod y gall ymddiheuriad llawn, mewn nifer o achosion, wella’r rhwyg rhwng y partïon a rhag-wahardd mynd i gyfraith.

46. Mater pellach yw sefyllfa’r llysoedd. Os na ellir defnyddio ymddiheuriad llawn i gefnogi gwir atebolrwydd, mae’n codi cwestiwn am rôl y llys a ffydd y cyhoedd yn y system cyfiawnder sifil. Mae hefyd yn cynyddu’r potensial i gynnig ymddiheuriad annidwyll neu at gynnig setliadau gwael. Rhaid cydbwyso hyn yn erbyn y ffaith y gall y llysoedd er hynny ddyfarnu atebolrwydd ‘camweddus’ *er* i ymddiheuriad ‘a warchodir’ gael ei wneud.

## Yr Achos dros ac yn erbyn Deddfwriaeth Sylfaenol newydd

47. Cyflwynwyd y prif ddadleuon dros gael deddfwriaeth i gysoni’r sefyllfa yng Nghymru a Lloegr â’r sefyllfa yn yr Alban gan John Howell AS wrth gyflwyno ei Fesur Aelod Preifat[13]:

[12] Er enghraifft, Barclays Bank Plc v Various Claimants [2020] UKSC 13 (https://www.supremecourt.uk/cases/uksc-2018-0164.html)

[13] https://hansard.parliament.uk/commons/2020-12-01/debates/1B5DAE62-69B1-4EF3-8C5B-1A2CAB41A519/Apologies

*"...bydd ymddiheuriad sydd ddim yn creu atebolrwydd cyfreithiol yn aml yn setlo anghydfod yn lle cael ei weld fel ffordd o bluo'r sawl a gyhuddir. Dylai fod yn arwydd o gymdeithas ddemocrataidd aeddfed a'i system datrys anghydfod y gall ac y dylai ymddiheuriad, p'un ai'n un cyhoeddus neu breifat, gael bod yn ystyrlon a defnyddiol yn lle dim ond arwydd angenrheidiol ond annidwyll.*

*Gall ymddiheuriad newid yr awyrgylch, natur y sgwrs a'r canlyniad yn llwyr. O'i ddefnyddio'n briodol gall helpu i osgoi anghydfod yn mynd i'r llys. Yn yr un modd gall gynorthwyo i ddatrys achos drwy newid y dull o ymdrin â'r mater. .....gall ymddiheuriad yn aml ddatgloi anghydfod ac arwain at setliadau heb fod angen cyfreitha ffurfiol.*

*Oherwydd bod partïon efallai'n gyndyn o wneud unrhyw beth a allai gael ei weld i fod yn cyfaddef bai, hyd yma mae ymddiheuro wedi bod yn beth prin heblaw mewn achosion o esgeulustod clinigol gan y GIG. Mae diwylliant wedi'i greu o bobl a sefydliadau sy'n gyndyn o ymddiheuro rhag ofn y byddai'n niweidiol i'w sefyllfa gyfreithiol neu'n cael ei weld fel gwendid."*

48. Hefyd, yng nghyd-destun penodol cam-drin plant yn rhywiol, roedd yr Ymchwiliad yn pwysleisio pa mor bwysig oedd bod dioddefwyr cam-drin yn derbyn ymddiheuriad didwyll ac ystyrlon er mwyn eu helpu i ymdopi ag effaith cael eu cam-drin. Byddai hyn hefyd yn rhoi sicrwydd bod gwersi wedi eu dysgu gan y sefydliadau dan sylw ac y byddai mesurau'n cael eu cymryd i'w atal rhag ail-ddigwydd.

49. Yn erbyn y dadleuon hyn felly, dylid cydnabod pa bynnag anogaeth a roddir drwy ddeddfwriaeth i ddiffynyddion gynnig ymddiheuriad, y gallai'r darpariaethau hyn o'u hymarfer fod yn llai effeithiol. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod arwyddocâd cyfreitha a'i ganlyniadau'n dal i arwain partïon at ymarfer pwyll sylweddol. Hyd yn oed pe bai adran 2 yn cael ei diwygio'n gynhwysfawr i fod ar yr un llinellau â deddfwriaeth yr Alban, gallai'r manteision fod yn amheus.

50. Yn ogystal, ac eithrio ar y mater o atebolrwydd dirprwyol, efallai na fyddai deddfu dim ond er mwyn gwneud y gyfraith bresennol yn gliriach, a heb dystiolaeth glir y byddai'r newidiadau'n cael unrhyw effaith, yn ddefnydd gwerth chweil o'r rhaglen ddeddfu. Yn enwedig o gofio'r holl wahanol alwadau ar amser Seneddol.

## Effeithiau ar hawlwyr a diffynyddion

51. Os yw'r Llywodraeth yn symud ymlaen â'r cynigion ymgynghori, gallai effeithio ar y rhai sy'n rhoi a derbyn ymddiheuriadau. Mae'n bwysig cofio mai nod unrhyw ddiwygiad posib i'r Ddeddf Iawndal fyddai rhoi sicrwydd cyfreithiol i statws ymddiheuriad, gan gynnwys ar gyfer hawliadau cam-drin plant yn rhywiol, gyda'r posibilrwydd o ddileu

unrhyw rwystr, p'un ai'n rhwystr real neu'n argraff o rwystr, i wneud ymddiheuriad. Gallai gwneud hyn hyrwyddo diwylliant o ymddiheuro'n gynt gan felly osgoi'r angen i ddod ag achos cyfreithiol ffurfiol.

52. Wedi dweud hynny, bydd unrhyw newid i'r Ddeddf Iawndal yn cadw hawl gyfreithiol y diffynnydd i ymddiheuro a heb roi dim mwy o orfodaeth arnynt i wneud nag ar hyn o bryd. Ni fydd y cynigion yn newid y sefyllfa bresennol o gynnig ymddiheuriad di-atebolrwydd ac yn parhau, ynddynt eu hunain, i beidio â bod yn gyfystyr â chyfaddef bai. Yn yr un modd, ni fyddai'r cynigion yn atal unrhyw unigolyn neu sefydliad rhag symud ymlaen â chŵyn neu achos sifil pe byddent yn dymuno, er enghraifft i hawlio iawndal.

## Opsiynau yn lle deddfu

53. O ystyried yr anawsterau posib gyda dod o hyd i amser Seneddol i drafod deddfwriaeth sylfaenol a chwestiynau am ba mor effeithiol y gallai fod, gallai fod yn werth ystyried ffyrdd eraill yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau. Yn ogystal â chynnig opsiynau eraill posib, os ystyrir bod deddfwriaeth sylfaenol yn opsiwn hyfyw, gallai'r rhain dal fod yn fesurau atodol i gynorthwyo ac annog dull rhagweithiol o weithredu.

54. Un opsiwn fyddai ymestyn y darpariaethau ymddiheuro yn y Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Datrys Anghydfodau Clinigol[14] i gynnwys mwy o hawliadau atebolrwydd camweddus drwy brotocolau cyn gweithredu eraill.

55. Fel rhan o ddyletswydd cyrff gwasanaeth iechyd i fod yn onest[15], o dan y rheoliadau os yw rhywbeth wedi mynd o'i le, dylai'r GIG hysbysu'r unigolyn/unigolion a effeithiwyd o'r hyn a ddigwyddodd, pa ymholiadau pellach sy'n cael eu gwneud, ac ymddiheuro.[16] Atgyfnerthir hyn hefyd mewn cyhoeddiadau fel y daflen *Dweud Sori* gan NHS Resolution.[17]

56. Gellid felly ystyried a fyddai canllawiau cyffredinol ar ddefnyddio ymddiheuriad fod yn ddefnyddiol gydag achosion sifil eraill. Wrth gwrs, mae perygl y gallai'r canllawiau ffurfiol eu hunain, neu hyd yn oed is-achos 'lloeren', fod yn destun anghytundeb.

[14] Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Datrys Anghydfodau Clinigol – Rheolau Trefniadaeth Sifil (justice.gov.uk) (gweler paragraff 2.2(l)).

[15] Dyletswydd i fod yn ddidwyll - GOV.UK (www.gov.uk)

[16] https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2014/9780111117613/regulation/20

[17] NHS-Resolution-Saying-Sorry.pdf

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymateb i'r cwestiynau canlynol a ofynnir yn y papur ymgynghori hwn.

**C1. Ydych chi'n meddwl y byddai'n syniad da pe bai'r Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i ddiwygio'r gyfraith ar ymddiheuro mewn achosion sifil? Rhowch resymau dros eich ateb.**

**C2. Ydych chi'n cytuno y dylai'r ddeddfwriaeth hon adlewyrchu, yn fras, yr hyn sy'n digwydd o dan Ddeddf Ymddiheuro'r Alban 2016? Rhowch resymau dros eich ateb.**

**C3. Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau a chanlyniadau posib i hawlwyr neu ddiffynyddion pe bai Deddf Ymddiheuro debyg i un yr Alban yn cael ei chyflwyno yng Nghymru a Lloegr?**

**C4. A ddylai'r ddeddfwriaeth roi diffiniad o ymddiheuriad? Rhowch resymau dros eich ateb.**

**C5. A ddylai'r ddeddfwriaeth fod yn berthnasol i bob achos sifil, ar wahân i ddifenwi ac ymchwiliadau cyhoeddus? Os na, pa fathau eraill o achosion sifil ddylai gael eu heithrio? Rhowch resymau dros eich ateb.**

**C6. A fyddai'n syniad da i'r ddeddfwriaeth gyfeirio'n benodol at atebolrwydd dirprwyol (er mwyn gwneud y sefyllfa ar ymddiheuro mewn hawliadau penodol a hanesyddol o gam-drin plant yn rhywiol yn gliriach)?**

**C7. A ddylai'r ddeddfwriaeth fod yn glir na fyddai'n ôl-weithredol?**

**C8. A ddylai'r Llywodraeth gymryd unrhyw gamau di-ddeddfwriaeth, e.e. Protocolau Cyn Gweithredu, i wella ymwybyddiaeth o'r gyfraith yn y maes hwn? Os dylai, pa gamau ddylen nhw fod ac a ddylen nhw fod yn lle neu'n ychwanegol at ddeddfwriaeth sylfaenol?**

**C9. A oes gennych dystiolaeth neu ddata i gefnogi pa mor eang y defnyddir darpariaethau deddfwriaethol presennol y Ddeddf Iawndal?**

**C10. Beth yw eich asesiad o oblygiadau ariannol tebygol (os o gwbl) y cynigion hyn i chi neu eich sefydliad?**

**C11. Beth yn eich barn chi fyddai effaith pob un o'r opsiynau diwygio arfaethedig ar gydraddoldeb i unigolion gyda nodweddion gwarchodedig? Rhowch resymau.**

**C12. Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir y gwahanol effeithiau ar gydraddoldeb o dan bob un o'r cynigion a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn?**

**Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb, lle bo’n briodol.**

**Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**

# Amdanoch chi

Defnyddiwch y rhan yma i roi manylion amdanoch eich hun.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl eich swydd** neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i’r ymgynghoriad hwn (e.e. fel aelod o’r cyhoedd, ayyb) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw cwmni / sefydliad** (lle bo’n berthnasol) | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Cyfeiriad y dylid anfon cydnabyddiaeth iddo, os yw’n wahanol i’r un uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych yn cynrychioli grŵp,** rhowch enw’r grŵp a chrynodeb o’r bobl neu’r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt / Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn [03-06-2024] i:

**Zalwa Alasow**
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Post Point 5.25
102 Petty France
London SW1H 9AJ

**E-bost**: zalwa.alasow@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am broses yr ymgynghoriad, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn y cyfeiriad uchod:

## Copïau ychwanegol

Mae copïau papur pellach o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://www.gov.uk/government/consultations/reforming-the-law-of-apologies-in-civil-proceedings

Gallwch ofyn am fersiynau o'r papur hwn mewn fformatau eraill drwy Zalwa.Alasow@justice.gov.uk

## Cyhoeddi'r ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maen nhw'n eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Gallai'r wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych eisiau i'r wybodaeth a roddwch i ni gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch o dan y Ddeddf FOIA fod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â'r Cod Ymarfer statudol sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro pam eich bod yn ystyried y wybodaeth a roesoch i ni fel gwybodaeth gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y byddwn yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol bob tro. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn rhwymo'r Weinyddiaeth o gwbl.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

# Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a’r Iaith Gymraeg

## Asesiad effaith

Oherwydd bod y dystiolaeth o effeithiau’r cynigion yn brin, nid yw Asesiad Effaith (IA) ffurfiol wedi cael ei baratoi ar y pwynt hwn. Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn am dystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y proffesiwn cyfreithiol a’r diwydiant yswiriant, o’r effeithiau posib ar y sector busnes. Bydd yr ymatebion hyn yn helpu i’n hysbysu a fydd costau a manteision ariannol a di-ariannol tebygol y cynigion yn ddigonol i gael eu cynnwys mewn unrhyw IA ymateb.

Bydd y Llywodraeth yn rhoi manylion pellach pan fydd yn cyhoeddi ei phapur ymateb.

## Cydraddoldeb

Paratowyd Datganiad Cydraddoldeb ar gyfer y cynnig hwn, sydd ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/reforming-the-law-of-apologies-in-civil-proceedings.

Mae’r ymgynghoriad hwn wedi ystyried yr effeithiau cydraddoldeb y gallai’r newidiadau arfaethedig i’r Ddeddf Iawndal ei gael ar ddefnyddwyr. Fodd bynnag, oherwydd y bydd y cynigion yn parhau i fod yn fesur anogaeth i gynorthwyo holl ddefnyddwyr y llysoedd sifil, ni chredwn y byddai’n debygol o achosi unrhyw wahaniaethu union neu anuniongyrchol anghyfreithlon.

Ni fwriedir i effaith gyfunol y cynigion, pe byddent yn cael eu deddfu, arwain at drin y gwahanol gategorïau o hawlwyr a diffynyddion yn wahanol, nac ychwaith bobl sy’n rhannu un neu fwy o’r nodweddion a warchodir a rhai sydd ddim. Byddai’r cynigion yn berthnasol i bawb yr un fath.

Rhestrir cwestiynau am gydraddoldeb yng nghwestiwn 11 a 12 uchod.

## Prawf Effaith ar y Gymraeg

Byddai’r cynnig, pe bai’n cael ei weithredu, hefyd yn effeithio ar rai sy’n siarad Cymraeg.

Mae fersiwn Saesneg o’r ddogfen hon ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/consultations/reforming-the-law-of-apologies-in-civil-proceedings

Mae copi Saesneg o’r Datganiad Cydraddoldeb ar gael drwy wneud cais.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae’r egwyddorion y dylai adrannau’r llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu dilyn wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi eu hegluro yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa’r Cabinet 2018, sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored Fersiwn 3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle’r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan bwy bynnag sy’n dal yr hawlfraint honno.

Mae fersiynau o’r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gael drwy wneud cais oddi wrth Zalwa.Alasow@justice.gov.uk